
Canllawiau Atodol
i'r
CANLLAWIAU AR YR ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW

Cyhoeddir y Canllawiau gan Weinidogion Cymru o dan adran 21(1A) o Ddeddf
Llywodraeth Leol 2003

Cyhoeddwyd ar Chwefror 2026 ac maent yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn
ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 yn unig

CYFLWYNIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, gwnaed [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu\) \(Cymru\) \(Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw\) 2026](#) gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Rheoliadau hynny yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Mae'r diwygiadau yn rhoi hyblygrwydd cyfyngedig o ran amser i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru mewn perthynas â'r Isafswm Darpariaeth Refeniw. Cyhoeddir y Canllawiau hyn yn ychwanegol at y canllawiau presennol a gyhoeddwyd yn 2018¹ sy'n parhau mewn effaith, ac maent yn ategu'r canllawiau hynny.

DIFFINIADAU

1. Yn y canllawiau hyn:

ystyr “**Deddf 2003**” yw'r Ddeddf Llywodraeth Leol;

ystyr “**Rheoliadau 2003**” yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003;

ystyr “**Rheoliadau 2026**” yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw) 2026;

ystyr “**canllawiau 2018**” yw'r canllawiau ar yr isafswm darpariaeth refeniw a ddiwygiwyd yn 2018;

ystyr “**awdurdod lleol**” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr “**MRP**” yw Isafswm Darpariaeth Refeniw.

¹[canllawiau-ar-y-ddarpariaeth-isafswm-refeniw.pdf](#)

CYMHWYSO

Dyddiad dod i rym

2. Mae'r Canllawiau hyn yn gymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 yn unig.

Awdurdodau Lleol

3. Mae'r Canllawiau hyn yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn unig.
4. Nid yw Gweinidogion Cymru yn argymhell y dylid defnyddio'r hyblygrwydd i benderfynu a fydd yn codi MRP, a weithredwyd gan ddiwygiadau cyfyngedig amser i reoliad 21 o Reoliadau 2003, i Gyfrif Refeniw Tai wedi'i glustnodi gadw gan awdurdod lleol.

Y RHEOLIADAU

5. Mae Rheoliadau 2026 yn gwneud diwygiadau i reoliadau 21 a 22 o Reoliadau 2003. Mae Rheoliadau 2026 yn diwygio'r ddyletswydd i wneud MRP yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 fel bod gwneud hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol honno yn fater o ddisgresiwn.
6. Mae'r hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan y diwygiadau yn golygu y gall awdurdod lleol benderfynu peidio â chodi unrhyw dâl MRP yn y flwyddyn ariannol honno. Gall awdurdod lleol hefyd benderfynu codi tâl MRP yn y flwyddyn ariannol honno, a chyfrifo swm darbodus gan roi sylw i'r canllawiau atodol hyn.
7. Mae rheoliad 22, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 2026, yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn penderfynu codi tâl MRP yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026, fod yn rhaid iddo gyfrifo swm y mae'n ei ystyried yn swm darbodus. Wrth gyfrifo MRP, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Mae'r canllawiau atodol hyn yn darparu mai'r hyn all fod yn ddarbodus yn y flwyddyn ariannol honno yw tâl wedi ei leihau o'r hyn a fyddai'n cael ei gyfrifo fel arfer.
8. Penderfyniad yr awdurdod lleol yw codi tâl, codi swm wedi ei leihau neu beidio â chodi tâl MRP a dylid ystyried hyn fel rhan o'i brosesau cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2026-27 a'i gynlluniau ariannol tymor canolig.

DARPARIAETH DDARBODUS

9. Mae rheoliad 22, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 2026, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sydd wedi penderfynu codi tâl MRP yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 gyfrifo swm y mae'n ei ystyried yn swm darbodus. Ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, mae Gweinidogion Cymru yn argymhell, at ddibenion rheoliad 22, y dylai'r swm darbodus o ddarpariaeth gael ei benderfynu yn unol â pharagraffau 10 i 14 isod.
10. Gall awdurdod lleol gyfrifo darpariaeth MRP yn unol â chanllawiau 2018 a chodi'r tâl MRP a gyfrifwyd ganddo ar gyfrif refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027.
11. Gall awdurdod lleol hefyd wneud darpariaeth ddarbodus fel bod cost y ddyled yn cael ei chodi ar gyfrif refeniw dros gyfnod sy'n gydnaws â'r hyn y mae'r gwariant cyfalaf yn rhoi manteision drosto (yn unol â pharagraff 11 o ganllawiau 2018), ond dim ond yn rhannol y caiff y ddarpariaeth honno ei chodi yn y flwyddyn ariannol 2026-2027. Serch hynny, dylid cysoni'r lleihad a dylid ei wneud i fyny i fodloni'r gofyniad llawn mewn blynyddoedd i ddod, yn unol â pharagraffau 13 i 15 isod. Gall y ffactorau y bydd awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried o bosibl wrth benderfynu pa ran o gyfrifiad y bydd yn ei chodi ar gyfer y flwyddyn ariannol hon gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, ei gyllideb tymor canolig, cynlluniau cynhyrchu incwm, strategaethau buddsoddi a chyfalaf a chynlluniau ar gyfer pontio i drefniadau'r Gronfa Twf Lleol o 2027-2028.
12. Mae egwyddor debyg yn cael ei chymhwyso yng nghanllawiau 2018 i gymorth benthyca gan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru neu gyllid grant mentrau benthyca eraill a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027, gall awdurdod lleol wneud darpariaeth ddarbodus drwy neilltuo cronfeydd dros gyfnod sy'n gydnaws â'r cyfnod sydd ymhlyg wrth benderfynu ar y grantiau hynny (yn unol â pharagraff 12 o ganllawiau 2018), ond dim ond yn rhannol y caiff y ddarpariaeth honno ei chodi ym mlwyddyn ariannol 2026-2027. Serch hynny, dylid ei chysoni a dylid ei gwneud i fyny i'r gofyniad llawn mewn blynyddoedd i ddod, yn unol â pharagraffau 13 i 15 isod.

DAD-WNEUD NEWIDIADAU

13. Rhaid ailasesu'r gofynion MRP bob blwyddyn o dan y canllawiau presennol. Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu codi darpariaeth wedi ei lleihau neu beidio â chodi tâl MRP ym mlwyddyn ariannol 2026-2027, ac mae hyn wedi arwain at

ddiffyg parhaus yn yr MRP sy'n ofynnol i fodloni ad-daliadau dyled a rhaglenni cyfalaf, bydd angen addasu'r taliadau MRP yn y dyfodol.

14. Argymhellir y dylai unrhyw addasiad gael ei wneud cyn gynted ag yr ystyrir ei fod yn rhesymol, gan ystyried y gofynion o ran y gyllideb yn ystod y flwyddyn ar gyfer yr awdurdod. Dylid gwneud cynllun ar gyfer ad-dalu unrhyw daliadau wedi eu lleihau neu dâl o ddim yn 2026-2027 fel bod unrhyw daliadau ychwanegol yn cael eu gwasgaru dros nifer o flynyddoedd ac nid yn cael eu gwthio i un flwyddyn yn y dyfodol.
15. Argymhellir y dylai'r addasiad gael ei wneud dros gyfnod o 10 mlynedd ar y mwyaf.

YSTYR CODI TÂL AR GYFRIF REFENIW

16. Yn ogystal â'r sefyllfaoedd hynny pan gall y tâl a godir ar gyfrif refeniw fod yn ddim, fel y nodir ym mharagraff 16 o ganllawiau 2018, gall tâl hefyd fod yn ddim os bydd awdurdod lleol yn penderfynu peidio â gwneud MRP ym mlyneddyn ariannol 2026-2027, yn unol â'r hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan Reoliadau 2026.

DATGANIAD BLYNYDDOL MRP

17. Dylai unrhyw newidiadau i ddull awdurdod lleol o godi tâl MRP gael eu cynnwys yn y datganiad MRP blynyddol, sydd wedi ei argymhell ym mharagraff 8 o ganllawiau 2018. Dylid cyflwyno'r datganiad hwnnw i'r cyngor llawn yn unol â'r canllawiau hynny.